



# Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Arholiad Aelodaeth Sylfaenol 4 Ebrill 2009  
Papur 1: Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

## Adroddiad y Prif Arholwr

### Safon Aelodaeth Sylfaenol

*Mae Aelodaeth Sylfaenol yn cyfateb i waith a wneir dan oruchwyliaeth ar lefel broffesiynol sylfaenol. Disgwylir i'r ymgeisydd gynhyrchu gwaith cywir, addas a graenus o fewn terfynau amser.*

Nifer yr ymgeiswyr: 30

Llwyddo: 8

Methu: 22

Gosodwyd dau ddarn o ryw 250 o eiriau yr un a oedd yn ceisio adlewyrchu cyweiriau lled wahanol. Disgrifiai'r naill ddarn ymdrechion i warchod adar gwyllt; roedd y llall yn ymwneud â dwyn manylion personol.

Sylwadau calonogol iawn a gafwyd yn adroddiadau'r arholwyr. Teimlent fod brawddegau neu baragraffau da yng ngwaith bron pob un o'r ymgeiswyr, ac mai ychydig iawn o'r rhai a safodd yr arholiad y tro hwn a oedd ymhell o gyrraedd y safon. Gresyn nad oes modd sicrhau y byddant yn cael eu goruchwyllo'n ofalus a'u cynorthwyo i feithrin arferion da. Y teimlad yw y gallai amryw fod wedi llwyddo petaent wedi treulio amser yn golygu eu gwaith yn fwy gofalus cyn ei gyflwyno.

Dyma rai enghreifftiau o'r gwallau technegol a welwyd yng ngwaith yr ymgeiswyr:

ein anfodlonrwydd	ein ymdriniaeth	ein anghymeradwyaeth
barbarieath	adar ysgafaethus	2.8 miliwm
heb son am	gwneud hyn yn alwg	Ni d oes / Ni does
yn unol a / ymwneud a	cynigon	wenud
meant	newydd profi	gwharddiadau
ar y Cofrestr	camlesu	70,00 (yn lle 70,000)
ar ôl golli	oleaif	

Mae'n drueni gweld gwallau mor elfennol yn britho gwaith sydd fel arall yn addawol. Byddai ambell wall o'r fath yn ddigon dealladwy dan amodau arholiad, ond roedd nifer sylweddol o wallau o'r math hwn i'w gweld yng ngwaith sawl ymgeisydd; roedd hynny'n naturiol yn amharu ar y cyfanwaith. Cafwyd llawer o enghreifftiau hefyd o elfennau a oedd heb eu cyfieithu, ac ambell frawddeg oedd wedi'i hepgor yn gyfan gwbl!

Teimlir ein bod yn canu'r un hen gân bob tro wrth dafoli gwaith ymgeiswyr, ond y ffordd sicraf o osgoi'r gwallau hyn (ar ôl defnyddio'r gwirydd sillafu sydd ar y peiriant i ddileu unrhyw wallau teipio) yw darllen y gwaith yn ofalus ar bapur (ochr yn ochr â'r gwreiddiol, ond hefyd fel darn o ysgrifennu Cymraeg gwreiddiol) cyn ei gyflwyno. Os yw'r amser wedi mynd yn brin, gall newidiadau a wnaed â llaw ar y copi caled fod yn ddigon derbyniol, gan fod y marcwyr yn ymwybodol iawn o'r pwysau ychwanegol sydd ar ymgeiswyr o dan amodau arholiad.

Er mwyn mynd i'r afael â'r darn cyntaf roedd angen i'r ymgeiswyr ddangos eu bod nhw'n gallu ymryddhau o batrymau brawddegau'r darn gwreiddiol heb golli gafael ar yr ystyr. Y rheini â'r hyder i wneud hynny oedd wedi cyflwyno'r gwaith mwyaf llwyddiannus.

Cafodd llawer o ymgeiswyr drafferthion ag olyniadau megis:

*the appalling... slaughter of wild birds*  
y gyflafan ofnadwy o adar gwyllt  
y lofruddiaeth arswydus o adar gwyllt  
y cyflafanu gwarthus o'r adar gwyllt

*in pursuit of their miserable sport*  
i ymlid eu chwarae gresynus  
wrth dilyn eu sbort truenus  
ar drywydd eu hwyl ddielflig

*the indiscriminate slaughter of birds*  
y lladd adar yn ddiwahaniaeth  
y lladd diwahân o'r adar yma

Roedd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus wedi dewis geirfa a chystrawennau mwy naturiol i gyfleu ystyr y gwreiddiol:

lladdfa echrydus yr adar gwyllt  
y weithred arswydus o ladd adar gwyllt  
lladd yr adar yn ddiwahân

Cafodd rhai ymgeiswyr drafferth ag elfennau llawer llai heriol:

*Living as I do*  
Wrth fyw fel rwyf fi  
Gan fyw fel yr ydwyf  
Yn byw, fel yr wyf

Roedd enghreifftiau mwy llwyddiannus yng ngwaith ymgeiswyr eraill:

Oherwydd fy mod yn byw  
Gan fy mod yn byw  
A minnau'n byw

*Living as I do on an RSPB reserve, I see visitors every day following the trails or sitting in hides...*

A minnau'n byw mewn gwarchodfa RSPB, gwelaf ymwelwyr bob dydd yn dilyn y llwybrau neu'n eistedd mewn cuddfannau...

*enlightened* 'rhydd', 'datblygedig', 'ar ben ffordd'  
[sef 'goleuedig']

*across the Bay of Naples* 'ger', 'ar hyd', 'dros', 'o'  
[sef 'ar draws']

Syndod oedd gweld cynifer yn dewis ffurfiau lluosog yn hytrach na ffurfiau unigol wrth restru'r adar yn y frawddeg isod:

*but at least we don't shoot robins, swallows, nightingales and other songsters*

ond o leiaf nid ydym yn saethu'r robin goch, y wennol, yr eos ac adar cân eraill

Mae'r unigol, yn aml, yn ddewis mwy naturiol yn y Gymraeg.

Cafwyd digon o enghreifftiau lle roedd yr ymgeiswyr wedi llwyddo i gyfleu grym y gwreiddiol yn gwir ac effeithiol:

*Older, lonely people easily fall for these things and part with what little money they have on bogus offers*

Mae pobl hŷn, unig yn cael eu twyllo'n hawdd ac yn gwario'u harian prin ar gynigion ffug

*From time to time I receive picture postcards from friends on holiday in Italy*  
O bryd i'w gilydd, byddaf yn cael cardiau post gan ffrindiau sydd ar eu gwyliau yn yr Eidal

*but barbarism is still rife there*  
ond mae barbariaeth yn dal yn rhemp yno

*Why can't they impose restrictions on shooting to bring it in line with the shooting laws of Northern Europe?*

Pam na allant osod cyfyngiadau ar saethu i gydymffurfio â deddfau saethu Gogledd Ewrop?

*Heaven knows, we are far from perfect in our treatment of wild birds...*

Duw a wŷr, rydym ymhell o fod yn berffaith yn y ffordd rydym yn trin adar gwyllt...

*...and what we can all do is make our disapproval known, especially to anyone involved with Italian tourism*

...a'r hyn y gallwn oll ei wneud yw lleisio'n hanghymeradwyaeth, yn enwedig wrth unrhyw un sy'n ymwneud â thwristiaeth yr Eidal

Cafwyd hefyd lawer o enghreifftiau lle nad oedd yr ymgeiswyr wedi llwyddo i gyfleu grym y gwreiddiol:

*the Basilica of St Francis at Assisi*  
Basilica San Ffransis o Assisi

*the right to invade other people's property*  
yr hawl i feddiannu eiddo  
...i oresgyn eiddo

*judging by the appalling all-year-round slaughter of wild birds*  
o ystyried y sefyllfa ofnadwy o ladd adar gwyllt...drwy gydol y flwyddyn

*The 'victim' of an ID theft is currently defined as being a bank or a lending institution*  
Mae 'ysglyfaeth' lladrad hunaniaeth (ID) ar hyn o bryd yn cael ei ddiffinio fel bod yn sefydliad banc neu fenthyca

*Britain's fastest growing identity theft crime –*  
un o'r troseddau personoli twyll sydd ar gynnydd fwyaf ym Mhrydain

*The Bereavement Register (TBR) is battling to raise awareness*  
Mae'r Gofrestr Golled (TBR) yn brwydro i godi sylw

*and send stuff out that really pulls on the heart strings of those left behind*  
anfon pethau sy'n wirioneddol cyffwrdd calonau'r rheiny sy'n cael eu gadael ar ôl  
anfon deunydd allan sy'n tynnu ar linyddau galon y rhai sy'n cael eu gadael ar ôl

*72% of all UK direct mail that is data cleansed*  
72% o'r post uniongyrchol yn y DU yw data sy'n cael eu ffiltro  
... cael ei ddata lanweithio  
... a ddata-olchir  
... cael eu glanhau â data  
... sy'n cael ei ddata wedi ei lanhau

*the unlawful interception of mail items*  
rhyngdoriad anghyfreithlon o eitemau post  
drwy ddal eitemau yn y post  
trwy ryngipio yn anghyfreithlon eitemau yn y post

*easily fall for these things*  
yn disgyn yn hawdd am y pethau yma  
yn ildio'n rhwydd i fagl y pethau hyn  
cwmpo am y rhain yn hawdd

*part with what little money...*  
gan wahanu gyda...  
yn rhannu beth ychydig o arian

Diolch i'r arholwyr am eu sylwadau manwl yn nodi'r llwyddiannau a'r anawsterau a gafodd yr ymgeiswyr. Diolch i staff y swyddfa am eu trefniadaeth effeithiol arferol ac am bob cefnogaeth.

**Prif Arholwr (o'r Saesneg i'r Gymraeg)  
Mehefin 2009**